

Croeso i Gyfres Ddarlithoedd Busnes Safon Uwch Ysgol Fusnes Aberystwyth



THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY

Gosod Amcanion Ariannol Ffocws – Llif Arian

Cynnwys i gefnogi Busnes Lefel 3

Emma Davies (emd31@aber.ac.uk)

Canlyniadau Dysgu

- Dealltwriaeth o amcanion ariannol
- Gwerth gosod amcanion ariannol.
- Y gwahaniaeth rhwng llif arian ac elw.
- Amcanion llif arian.
- Y datganiad llif arian
- Y rhagolwg llif arian

Dealltwriaeth o amcanion ariannol

- **Beth yw amcan ariannol?**
 - Rhan o broses cynllunio ariannol busnes.
 - Targedau busnes y gellir eu mynegi mewn termau ariannol o fewn amserlen benodedig.
 - Mae amcanion ariannol yn wahanol i fathau eraill o amcanion.

Gwerth gosod amcanion ariannol

- Gweithredu fel ffocws ar gyfer uwch reolwyr ac adrannau'r busnes.
- Dull o fesur: Yn erbyn blynyddoedd blaenorol, targedau, cystadleuwyr ayyb.
- Gwella cydlyniaid ac effeithlonrwydd.
- Galluogi cyfranddalwyr a rhanddeiliaid eraill i asesu hyfywedd ariannol y cwmni.

Gwerth gosod amcanion ariannol

- Nodi risgiau a'u lleihau.
- Rhagweld heriau a bygythiadau yn y dyfodol.
- Mwy o reolaeth dros eich cyllideb ac yn darparu data gwerthfawr i'ch cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau.
- Galluogi busnes i dyfu a chynyddu ei gyfran o'r farchnad.

Enghreifftiau o amcanion ariannol

- Gweld cynnydd o 10% y flwyddyn mewn refeniw blynyddol
- Sicrhau ffin elw o 20% erbyn 2021.
- Lleihau lefelau stoc.
- Cynnal llif arian cadarnhaol.
- Manteisio ar farchnadoedd newydd i gynyddu gwerthiannau.
- Prynu asedau sefydlog newydd i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau gorbenion.
- Lleihau lefel y ddyled.

Y gwahaniaeth rhwng llif arian ac elw

- Mae arian parod ac elw yn gysylltiedig OND nid ydynt yr un peth!
- Mae arian parod yn ased i fusnes a gellir ei fesur ar adeg benodol mewn amser.
- Dim ond dros amser y gellir ennill a mesur elw.

Y gwahaniaeth rhwng llif arian ac elw

- Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn dibynnu ar ffynhonnell y trafodion arian parod a sail y cyfrifo.

Y Datganiad Llif Arian

- Rhan o'r datganiadau ariannol.
- Crynodeb o'r arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan o'r cwmni.
- Mae'n mesur pa mor effeithlon yw cwmni wrth reoli ei sefyllfa arian.
- Mae'n dangos pa mor dda y mae busnes yn cynhyrchu arian i ariannu ei dreuliau gweithredu a'i rwymedigaethau dyled.

Y Datganiad Llif Arian

Mae'n cynnwys tair rhan:

1. Refeniw / Incwm
2. Treuliau / Alldaliadau
3. Gweddillion

Y Datganiad Llif Arian

Refeniw

- Incwm a dderbynnir gan fusnes am nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd.
- Yn aml, gellir rhannu'r refeniw hwn yn werthiannau arian parod a thaliadau dyledwyr.

Y Datganiad Llif Arian

Treuliau

- Mae'r holl arian y mae busnes yn ei wario o fewn cyfnod amser yn cael ei ddangos o dan dreuliau.
- Mae treuliau yn cael eu dadansoddi yn y llif arian i weld ble yn union mae'r arian yn mynd.
- Gallai enghreifftiau o dreuliau gynnwys: Cyflogau, trydan, rhent, offer swyddfa ayyb.

Y Datganiad Llif Arian

Cyfrifo llif arian net

= Cyfanswm y refeniw – Cyfanswm y treuliau

Refeniw > Treuliau = + llif arian

Refeniw < Treuliau = - llif arian

Y Datganiad Llif Arian

Gweddillion terfynol

- Mae gan bob cyfnod weddill agoriadol sydd wedi'i gario drosodd o'r cyfnod blaenorol.
- Y gweddill agoriadol yw'r swm arian sydd ar gael ar ddechrau'r cyfnod.
- Mae'r llif arian net yn cael ei ychwanegu neu ei ddidynnu o'r gweddill agoriadol hwn i greu'r gweddill terfynol.

Y Datganiad Llif Arian

Enghraifft

	Ionawr	
Cyfanswm y refeniw	£1,200	
Cyfanswm y treuliau	£4,900	
Llif arian net	- £3,700	 (Refeniw – Treuliau)

Y Datganiad Llif Arian

Enghraifft

	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Gweddill agoriadol		-£3,700	-£5,360
+/- Llif arian net		- £1,660	-£700
Gweddill terfynol	-£3,700	-£5,360	-£6,060

Y Datganiad Llif Arian

- Mae'r llif arian yn rhan o'r datganiadau ariannol ac mae'n ddogfen hanesyddol.
- Defnyddir datganiadau llif arian hefyd i ragfynegi cyfnodau, buddsoddiadau neu sefyllfaoedd penodol yn y dyfodol.

Rhagolygon Llif Arian


- Rhagfynegi'r llifoedd arian tebygol i mewn ac allan yn ystod y cyfnod.
- Maent wedi'u seilio ar:
 - Brofiad blaenorol
 - Tueddiadau economaidd ac ariannol cyfredol a rhai tebygol y dyfodol
 - Gwybodaeth a dealltwriaeth y rheolwyr

Y Datganiad Llif Arian

Gall datganiad llif arian gwirioneddol busnes fod yn wahanol iawn i'w ragolwg llif arian.

Pam?

Y Datganiad Llif Arian



Y Rhagolwg Llif Arian

Rhesymau nodweddiadol ar gyfer problemau gyda rhagolygon llif arian:

- Nid yw gwerthiannau ar y lefel ddisgwyliedig
- Costau yn cynyddu
- Ffactorau mewnol
- Gwybodaeth annigonol neu o ansawdd gwael

Y Rhagolwg Llif Arian

- Dylai pob busnes fonitro llif arian yn rheolaidd.
- Archwilio unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau gwirioneddol a ffigurau rhagolygon.
- Gyda phrofiad, dylai fod modd gwella cywirdeb y rhagolygon.
- Dylai'r rhagolwg ddweud wrth fusnes a oes ganddynt ddigon o arian i dalu treuliau yn y dyfodol.

Y Rhagolwg Llif Arian

- Atebion i brinder arian disgwylledig:
 - Cynyddu refeniw
 - Lleihau costau
 - Gohirio taliadau
 - Cyllid ychwanegol
 - Ffactoreiddio anfonebau

Amcanion Llif Arian

- Gwerthuso'r sefyllfa arian.
- Sicrhau llif arian cadarnhaol yn y dyfodol.
- Sicrhau y gellir talu difidendau.
- Darlun o'r sefyllfa o ran hylifedd.
- Cymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Darparu mwy o fanylion gan amlygu meysydd sy'n peri pryder.

Enghreifftiau o Amcanion Llif Arian

- Lleihau benthyciadau banc a gorddrafftiau i lefel benodol.
- Lleihau'r gymhareb diwrnodau dyledwyr gyfartalog.
- Cynyddu'r gymhareb diwrnodau credydwyr gyfartalog yn effeithiol.
- Datblygu cronfa 'diwrnod glawog'.
- Sefydlogi'r llif arian a lleihau unrhyw anghysondebau mewn perfformiad yn ystod y cyfnod.

Cyfyngiadau defnyddio rhagolygon llif arian

- Cymryd llawer o amser i'w paratoi a'u monitro
- Mae angen i ragolygon llif arian fod yn gywir i fod â gwerth.
- Po hiraf yw'r raddfa amser, y lleiaf cywir y mae'r rhagolwg yn debygol o fod.
- Gall y gyfradd chwyddiant effeithio ar gywirdeb ffigurau.
- Ni ellir rhannu pob rhan o'r wybodaeth.

Gweithgareddau

- Edexcel, papur Gaeaf 2010.
Cwestiynau 7, 9, 10 ac 11 (30 munud)
- Cwestiynau amlddewis

Diolch | Thank you



THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2019**

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN AR
GYFER ANSAWDD
Y DYSGU

THE  TIMES
THE SUNDAY TIMES
**GOOD
UNIVERSITY
GUIDE
2019**

UNIVERSITY
OF THE YEAR
FOR TEACHING
QUALITY